# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (250)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Chwefror 2007

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

2.00pm
Eitem 1: Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf ac eithrio cwestiwn 8 a dynnwyd yn ?nbsp; Cafodd cwestiynau 1 a 4 eu grwpio.

**...................................**

### 2.37pm
### Eitem 2: Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf ac eithrio cwestiwn 2 a drosglwyddwyd i gael ateb ysgrifenedig.

**...................................**

### 3.11pm
### Eitem 3: Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig

**Derbyniwyd y Datganiad Busnes drafft diwygiedig.**

**...................................**

### Pwynt o drefn

Cododd Leighton Andrews bwynt o drefn ynghylch ymddygiad yn y Siambr.

**...................................**

### 3.16pm
### Eitem 4: Dadl am y Rheolau Sefydlog Newydd Arfaethedig

**NDM3451 Jenny Randerson (Canol Caerdydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo, at ddibenion paragraff 20(4) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gynigion y Cynulliad ar gyfer y Rheolau Sefydlog sydd i ddod i rym yng nghyswllt trafodion y Cynulliad yn dilyn etholiad 2007, fel y'u nodir yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 30 Ionawr.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:Gwelliant - John Marek (Wrecsam)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

*"1. Yn nodi cynigion drafft y Cynulliad ar gyfer y Rheolau Sefydlog sydd i ddod i rym yng nghyswllt trafodion y Cynulliad yn dilyn etholiad 2007, fel y'u nodir yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 30 Ionawr; a*

*2. Yn galw ar y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog i gyfarfod eto i ystyried unrhyw sylwadau a safbwyntiau a wnaed yng nghyswllt y cynigion drafft, ac i ailgyflwyno Rheolau Sefydlog drafft i'w cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi'u newid neu fel arall, sy'n ystyried y pwyntiau canlynol yn benodol:*

*a) Dileu Rheol Sefydlog Rhif 1.13(v);*

*b) Rheol Sefydlog Rhif 6.1 (iii): ar y dechrau cynnwys 'yr amserau a fydd ar gael ar gyfer';*

*c) Rheol Sefydlog Rhif 7.11 (iv): ychwanegu ar y diwedd 'ar wah?i rai a gynigir gan y Comisiwn';*

*d) Rheol Sefydlog Rhif 8.7: disodli 'er mwyn egluro cyn ailddechrau ar ei araith' gyda 'yn gryno';*

*e) Dileu Rheol Sefydlog Rhif 8.8;*

*f) Rheol Sefydlog Rhif 9.9: ychwanegu ar y diwedd 'Gellir cyflwyno gwelliannau i unrhyw ddatganiad barn gyhyd ?146;u bod yn cydymffurfio ?heolau Sefydlog ac nad ydynt yn fwy na 50 gair o hyd.';*

*g) Rheol Sefydlog Rhif 9.10: dileu 'Os yw'r Llywydd o'r farn bod Datganiad Barn yn ddilys, rhaid iddo gael ei gyhoeddi,' a chynnwys yn ei le 'Rhaid cyhoeddi Datganiad*

*Barn neu unrhyw welliannau sy'n cydymffurfio ?146;r Rheolau Sefydlog,';*

*h) Rheol Sefydlog Rhif 14.1: disodli 'i' gyda 'a all';*

*i) Rheol Sefydlog Rhif 16.1(i): ychwanegu ar y diwedd '(dd) unrhyw god ymddygiad gweinidogion a gyhoeddir gan y Prif Weinidog neu Weinidog yn ei absenoldeb.';*

*j) Rheol Sefydlog Rhif 23.47: ychwanegu ar y diwedd 'Rhaid dewis gwelliannau a wneir gan Weinidog.';*

*k) Rheol Sefydlog Rhif 24.3: cynnwys '24.3(a) Ni ellir gwneud unrhyw offeryn statudol o dan ddarpariaeth Rheol Sefydlog 24.2 hyd nes ei fod wedi cael ei osod am bum niwrnod a bod 10 Aelod heb lofnodi cynnig o anfodlonrwydd.';*

*l) Rheol Sefydlog Rhif 25.1: cynnwys '25.1(a) Ni all y Cwnsler Cyffredinol, os nad yw'n aelod o'r Cynulliad, ond wneud neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth os nad oes Gweinidog ar gael i wneud hynny.';*

*m) Rheol Sefydlog Rhif 25.15: cynnwys ar y diwedd ', ond dim ond os nad oes 10 Aelod wedi cyflwyno cynnig o anfodlonrwydd';*

*n) Rheol Sefydlog Rhif 27.6: dileu 'neu'n gostwng';*

*o) Rheol Sefydlog Rhif 27.7: cynnwys 'o leiaf' cyn 'y ddwy flynedd wedyn' a dileu'r gweddill;*

*p) Rheol Sefydlog Rhif 27.27: ychwanegu ar ?Cymru' yn y frawddeg gyntaf 'neu aelod o'r Comisiwn' a chynnwys ar y diwedd 'neu aelod o'r Comisiwn';*

*q) Ychwanegu Rheol Sefydlog 36 newydd:*

*Rheol Sefydlog 36 - Cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg*

*36.1 Rhaid i holl fesurau deddfwriaethol y Cynulliad a dogfennau a gyflwynir gerbron y Cynulliad fod yn Gymraeg ac yn Saesneg onid ydynt mor gymhleth fel ei bod yn anymarferol gwneud hynny, neu fod y mesur yn cael ei ystyried yn un brys.*

*36.2 Ar gyfer pob mesur neu offeryn statudol (boed o dan ddarpariaethau negyddol neu gadarnhaol) neu ddogfen arall a osodir ac nad yw yn y ddwy iaith, rhaid cael datganiad yn rhoi rhesymau paham nad yw yn y ddwy iaith."*

Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i'r cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 3 | 0 | 48 | 51 |

**Gwrthodwyd y gwelliant.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**……………………………**

## 4.05pm
## Eitem 5: Dadl am Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Ddigartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc

**NDM3453 Janice Gregory (Ogwr):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ?heolau Sefydlog 6.6 a 9.9 yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio sy’n dwyn y teitl Adolygiad ar Ddigartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc 'Busnes Pawb, Cyfrifoldeb Neb' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**……………………………**

## 4.47pm
## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (yr Heddlu) 2007-08

Rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol gerbron o dan Reol Sefydlog 6.21 i estyn y cyfarfod am 20 munud. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

## 5.00pm
## Cynnig trefniadol

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 4 | 33 |

**Derbyniwyd y cynnig.Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (yr Heddlu) 2007-08 (Parhad)NDM3454 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ?heol Sefydlog Rhif 21.11, yn cymeradwyo Local Government Finance Report (No.2) 2007-08 (Final Settlement - Police Authorities) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 30 Ionawr gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 4 | 13 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 5.17pm
## Eitem 7: Dadl fer

### NDM3452 Owen John Thomas (Canol De Cymru):

Hyrwyddo a Gwarchod yr Amgylchedd Trefol.

**...................................**

## Daeth y cyfarfod i ben am 5.37pm.

**...................................**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2007.

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**